

Etsy

Four Corners of Craft

AN EXHIBITION OF CONTEMPORARY CRAFT IN PARTNERSHIP
WITH ARTS AND CRAFTS ORGANISATIONS OF THE UK

Crefftau'r Pedwar Cwr: Arddangosfa Etsy yng Ngŵyl Ddylunio Llundain

Sarah Hewett, 12 Mawrth 2015

Etsy'n uno crefftau yn y DU, gydag arddangosfa a gynorthwyr gan y Cyngor Crefftau a sefydliadau blaenllaw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

[Gŵyl Ddylunio Llundain](#) yw uchafbwynt calendr byd dylunio'r DU, am ei bod yn cynnig cyfle i bawb ddod at ei gilydd i ddathlu crefft a dylunio rhagorol. Eleni, bydd Etsy'n gadael ei farc gydag arddangosfa a fydd yn gwerthu crefftau cyfoes aml-ddisgyblaeth ar 24-27 Medi 2015mewn partneriaeth â'r LDF a [Tent London](#).

Testun cyffro mawr i ni yw cyhoeddi **Crefftau'r Pedwar Cwr** - sef prosiect datblygu ac arddangos ar gyfer crefftwyr gyda chymorth sefydliadau'r celfyddydau a chrefftau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae cwmpas cenedlaethol i'r prosiect ac mae ein prif bartneriaid blaenllaw yn cynnwys: [Y Cyngor Crefftau](#), [Celfyddydau Cymhwysol Cyfoes](#), [Yr Ymddiriedolaeth Ddylunio](#), [Crefftau'r Alban](#), [Yr Alban Greadigol](#), [Crefftau Gogledd Iwerddon](#), [Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon](#) a [Helfa Gelf](#). Am restr glodwiw! Rydyn ni'n ddiolchgar hefyd am gymorth [Cyngor Celfyddydau Cymru](#), [Canolfan Grefftau Rhuthun](#), [Urdd Crefftwyr Cymru](#) a nifer fawr o sefydliadau creadigol hynod o bob rhan o'r DU.

'Mae dod â chrefftau o safon uchel o holl ranbarthau'r DU at ei gilydd wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud yn CAA. Felly rydyn ni wrth ein bodd i fod yn bartner i Etsy ar gyfer Crefftau'r Pedwar Cwr yng Ngŵyl Ddylunio Llundain.' - Christiane Eck, Celfyddydau Cymhwysol Cyfoes

Mae cymuned Etsy o ddylunwyr a chrefftwyr hynod ddawnus sy'n creu crefftau cyfoes prydfarth yn ymestyn ar draws y DU - o Inverness i Brighton. Gyda chymorth sefydliadau celfyddydol cenedlaethol a rhanbarthol, byddwn ni'n tynnu gwaith detholiad o'r crefftwyr hyn at ei gilydd mewn arddangosfa a fydd yn cynrychioli pedwar cwr y wlad... a'r hyn a fydd yn clymu'r cyfan ynghyd fydd ansawdd y crefftwait.



Mae [Julia Smith](#), yn creu gwaith serameg yn ei stiwdio yn Inverness ac yn gwerthu trwy Etsy. Dywedodd Fiona Logue, Cyfarwyddwraig Crefftau'r Alban - 'Mae Crefftau'r Alban wrth ei fodd i fod yn bartner i Etsy yn y prosiect newydd ysbrydoledig yma. Bydd yn creu cyfleoedd i'n crefftwyr ac yn meithrin cynulleidfaoedd newydd ar gyfer eu gwaith mewn lleoliad blaenllaw yn ystod Gŵyl Ddylunio Llundain. Mae Etsy yn cynnig llwybr cefnogol a hygyrch i grefftwyr fasnachu eu gwaith, ac mae eu gwaith yn cynorthwyo ein crefftwyr i ddatblygu eu busnesau.'

Yma yn Etsy, rydyn ni'n gwneud mwy na dim ond darparu lle gwerthu ar lein - rydyn ni'n helpu ein dylunwyr a chrefftwyr i ehangu eu busnesau creadigol trwy gynnig cyfleoedd gwirioneddol gefnogol iddynt. Bydd y rhai sy'n arddangos yng Nghrefftau'r Pedwar Cwr yn elwa ar hyfforddiant datblygu proffesiynol hygyrch trwy'r [Ymddiriedolaeth Ddylunio](#) fendigedig, ac wrth baratoi ar gyfer yr arddangosfa cânt eu cyfeirio at wasanaethau cymorth lleol hefyd.

Rydyn ni'n chwilio am grefftwyr ar gyfer yr arddangosfa trwy alwad agored, a chânt eu dewis gan Etsy a'n sefydliadau partner - dewch nôl cyn bo hir i weld ein newyddion diweddaraf! Ond am nawr, gwnewch gofnod o'r dyddiad i ddod i weld eu gwaith yn hyb creadigol Gŵyl Ddylunio Llundain gyda Tent yn Nwyrain Llundain. Mae'r manylion llawn isod.

Ydych chi'n creu crefftau cyfoes? Cymrwch gip ar ein galwad agored yma: <http://etsy.me/1wrPmFX>

Manylion yr Arddangosfa

Dyddiadau: Dydd Iau 24 - dydd Sul 27 Medi 2015

Amserau agor: l'w cadarnhau

Oriel: Siop 12, The Old Truman Brewery, E1 6QL. (Dilynwch y cyfarwyddiadau i Tent London:

<http://www.tentlondon.co.uk/>)

Wedi'ch ysbrydoli i werthu'ch gwaith? Mae agor siop Etsy yn rhwydd. Cewch restru 20 eitem am ddim i gychwyn! Nodwch y cod: FOURCORNERS yn <http://etsy.me/1HtQHwH> (gwerthwyr newydd yn unig).

